# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Tachwedd 2025** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**<br>**Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Vera Jones**<br>**Rheolwr Democratiaeth ac Iaith** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **Est 32267** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y Dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i Ddarlledu Cyfarfodydd** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Mabwysiadu'r ymatebion i gwestiynau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarlledu cyfarfodydd (fel a nodir yn Atodiad A), er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor,.

**2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ffurfiol yn ceisio barn ar a ddylid ymestyn y dyletswydd statudol i ddarlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol, y tu hwnt i'r cyfarfodydd cyngor llawn sydd eisoes yn destun y ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.2. Ar hyn o bryd, dim ond cyfarfodydd y Cyngor llawn sy'n ofynnol eu darlledu. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch ymestyn y dyletswydd i gynnwys pwyllgorau eraill, ac mae goblygiadau adnoddau a chost i'r Cyngor ynghlwm â phenderfyniad o'r fath.

2.3 Yn sgil y goblygiadau pellgyrhaeddol allai godi o benderfyniad i ymestyn y gofynion gweddarlledu, gofynnir i'r Cabinet am arweiniad gwleidyddol ar ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad.

## 3 Cefndir

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ffurfiol yn ceisio barn ar a ddylid ymestyn y dyletswydd statudol i ddarlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol, y tu hwnt i'r cyfarfodydd cyngor llawn sydd eisoes yn destun y ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae copi o'r ymgynghoriad llawn i'w weld trwy ddilyn y ddolen isod:

Ymgynghoriad ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd [HTML] | LLYW.CYMRU

3.2 Ar hyn o bryd, dim ond cyfarfodydd y Cyngor llawn sy'n ofynnol eu darlledu, ond mae nifer o awdurdodau'n ffrydio cyfarfodydd eraill yn wirfoddol. Mae Cyngor Gwynedd yn gweddarlledu y cyfarfodydd a ganlyn:

- Cyngor Llawn
- Cabinet
- Cynllunio
- Craffu (y 3 pwyllgor Craffu)

3.3 Noder fod y cyfarfodydd uchod hefyd yn gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn aml-leoliad (hybrid) yng Ngwynedd. Petai ymestyn y gofyn i weddarlledu mwy o bwyllgorau, ni fyddai'n ofynnol cynnal y cyfarfodydd hynny yn gyfarfodydd aml-leoliad. Noder, fodd bynnag, y byddai'r gwaith paratoi a chynnal y gweddarlledu yn gyfatebol i gynnal cyfarfod aml leoliad.

Amcanion yr Ymgynghoriad

3.4 Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch:

- A ddylid **ymestyn y ddyletswydd i gynnwys pwyllgorau eraill** megis y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Chynllunio;
- A ddylid gosod **dyletswyddau tebyg ar Awdurdodau Tân ac Achub** ac **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**;
- Pa **gyfnod cadw** ddylai fod ar recordiadau electronig o gyfarfodydd darlledu;
- Y **costau, effaith ac ymarferoldeb** posibl i awdurdodau lleol.

3.5 Cynnig Gweinidogion Cymru yw ei gwneud hi'n ofynnol i gyfarfodydd pwyllgorau statudol canlynol y prif gynghorau gael eu darlledu:

- Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd, *
- Llywodraethu ac Archwilio, *
- Trwyddedu, *

- Cynllunio,
- Trosolwg a Chraffu,
- a Safonau, *
- yn ogystal â chyfarfodydd Cabinet

3.6 Noder * uchod yn dynodi'r gofyn ychwanegol i'r ymarfer cyfredol fyddai'n effeithio Cyngor Gwynedd. Ni fyddai'n ofynnol cynnal y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd aml-leoliad, ond byddai'n rhaid i swyddogion fod ar leoliad yn y siambrau er mwyn gweddarlledu, a byddai'r gwaith 'gosod' a'r adnoddau ar gyfer rhedeg y cyfarfodydd yn gyffelyb a'r gwaith gosod a chynnal cyfarfod aml-leoliad sy'n cael ei weddarlledu.

3.7 Yn amlwg, mae goblygiadau penodol o ran adnoddau wrth ymestyn y ddarpariaeth ymhellach, yn arbennig gan fod technoleg gyfredol ar gyfer gweddarlledu yng Nghyngor Gwynedd ar seiliau gwan iawn gan ei fod yn ddarpariaeth analog gan wahanol gwmnïau, ac felly'n gallu methu yn aml. Rhaid ystyried uwchraddio'r siambrau, adnoddau staffio digonol ac arbenigol, costau trwyddedau i weddarlledu ayyb wrth ystyried ein hymateb.

3.8 Dylid nodi nad oes systemau safonol ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn bodoli yng Nghymru, gyda phob awdurdod wedi addasu eu systemau unigol i weddarlledu a chynnal cyfarfodydd hybrid ar sail unigol. Nid oes trefniadau safonol i weddarlledu cyfarfodydd rhithiol yn unig yn bodoli ar draws Cymru chwaith. O ystyried y sail bregus yma ar draws y wlad, dylid nodi fod angen atebion technegol sy'n safonol a hyblyg ar gyfer Cymru gyfan, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, fel y gall pob awdurdod, ac eraill, megis Cydbwyllgorau Corfforedig hefyd ddefnyddio'r dechnoleg yn rhwydd.

<u>Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub</u>

3.9 Mae'r adroddiad hefyd yn ymgynghori a ddylid ymestyn y dyletswydd i weddarlledu ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Tra yr ystyrir mai mater i'r cyrff cyhoeddus hynny yw ymateb, mae'r egwyddor o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cyrff hynny ag ydynt i awdurdodau lleol. Noder nad oes ymestyn yr ymgynghoriad i gynnwys dyletswydd i weddarlledu ar Cydbwyllgorau Corfforedig.

<u>Cyfnodau Cadw</u>

3.10 Mae'r ymgynghoriad yn nodi fod Deddf 2021 yn datgan, mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd llawn prif gynghorau, bod yn rhaid i recordiad o'r darllediad fod ar gael yn electroneg am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod. Nid yw'r term 'cyfnod penodol' wedi cael ei ddiffinio yn y gyfraith ac felly mater i bob prif gyngor yw pennu hynny. Mae arferion yn amrywio ledled Cymru. Mae gan Weinidog Cymru ddiddordeb mewn safbwynt ynghylch cyfnod cadw recordiadau o'r cyfarfodydd, ac yn holi a ddylai'r cyfnod cadw

fod yr un fath a'r cyfnod cadw cofnodion ysgrifenedig electroneg o'r cyfarfodydd, hynny yw, chwe blynedd.

3.11 Nodir ar y safle we fod cyfnod cadw ar gyfer recordiadau o bwyllgorau Cyngor Gwynedd ar gael am 6 mis ac y gellir cysylltu am gopi y tu allan i'r cyfnod hwn. Mae'r recordiadau yn fyw ar y safle we am bron i 12 mis, ac mae cost penodol i'r awdurdod i gael gafael ar unrhyw recordiad yn dilyn y cyfnod hwnnw.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 28 Tachwedd 2025.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Cyflwynwyd yr ymaterion drafft i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau ar 4 Tachwedd 2025. Cyflwynir sylwadau aelodau'r pwyllgor ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet.

5.2 Swyddogion Statudol

Sylwadau Pennaeth Cyllid

"Mae'r ymateb drafft a gyflwynir yma yn amlygu'n ddiamwys y pryder am yr adnoddau ychwanegol allai fod yn angenrheidiol petai'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd yn cael ei ymestyn. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Sylwadau Swyddog Monitro

Mae'r ymgynghoriad mewn gwirionedd ar ymestyn y rheidrwydd statudol i we ddarlledu cyfarfodydd democrataidd y Cyngor. Fel welir o'r adroddiad fod y Cyngor eisoes yn gweithredu tu hwnt i gymhelliant cyfreithiol ac yn gwe ddarlledu ystod o gyfarfodydd. Fodd bynnag drwy osod gofyn cyfreithiol i we ddarlledu pob cyfarfod perthnasol , sydd i'w groesawu, mae hefyd yn golygu fod angen priodoli yr adnoddau i gyfarch y dyletswydd yn ddidramgwydd. Mae'r ymateb yn rhoi sylw priodol i'r angen am gyfarch yr angen am adnoddau ond hefyd sustemau effeithiol i gyfarch y gofyn.